Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

# Ymgynghoriad ar system reoleiddio newydd gan gynnwys amodau cofrestru a chyllid

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Mai 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/02 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Yr holl ddarparwyr addysg drydyddol |
| **Ymateber erbyn:** | 18 Gorffennaf 2025 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | cyngorrheoleiddio@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Thema:** | Rheoleiddio a Chyllid |

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn ag elfennau o'r system reoleiddio newydd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd ymgynghori pellach yn digwydd yn hwyrach yn 2025 ar y system reoleiddio newydd yn ei chyfanrwydd. Bydd y system newydd yn cael ei rhoi ar waith yn 2026. Gwahoddir yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill i ymateb.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cyflwyniad**

1. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (‘Y Ddeddf’) yn nodi’r gofynion o ran system reoleiddio newydd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn â’r canlynol ar gyfer Medr:

- **Dull Rheoleiddio** arfaethedig, sy’n nodi sut yr ydym yn cynnig gweithredu fel rheoleiddiwr cymesur[1] a seiliedig-ar-risg, a **Datganiad Pwerau Ymyriadau** a sut y gellir defnyddio’r pwerau hynny (Atodiad A).
- **Fframwaith Rheoleiddio** arfaethedig sy’n cynnwys rhan gyntaf o’r Amodau Cofrestru a’r Amodau Cyllid drafft; canllawiau ynghylch y gofynion ar gyfer cydymffurfio; gwybodaeth am drefniadau ar gyfer monitro parhaus; a’r broses ar gyfer sut y mae’n rhaid adrodd am ddigwyddiadau, a’r math o ddigwyddiadau y mae’n rhaid adrodd amdanynt, wrth Medr (Atodiad B).
- **Fframwaith Ansawdd** arfaethedig, sy’n tanategu gofynion yr amod a’r trefniadau monitro sy’n ymwneud ag ansawdd (Atodiad C).


2. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn i ateb y gofynion canlynol yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022:

- 27 (5) Amodau Cofrestru Cychwynnol;
- 28 (7) Amodau Cofrestru Parhaus Cyffredinol;
- 50 (4) Fframweithiau Sicrhau Ansawdd, a
- 81 (3) Datganiad ar Swyddogaethau Ymyrryd.

3. Gwahoddir rhanddeiliaid i gyflwyno ymatebion i’r ymgynghoriad trwy ein harolwg erbyn 18 Gorffennaf 2025.

4. Byddwn hefyd yn cynnal rhaglen i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y cynigion hyn.

5. Bydd ymgynghori pellach yn digwydd yn hwyrach yn 2025 ar y system reoleiddio newydd yn ei chyfanrwydd gan gynnwys yr elfennau hynny nad ydynt wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn sydd wrthi’n cael eu datblygu ar hyn o bryd.




[1] Mae Dull Rheoleiddio Medr a'n pwerau ymyrryd yn amlinellu’r egwyddorion yr ydym yn dymuno i ddatblygu fframwaith ac amgylchedd rheoleiddio sydd yn cydbwyso'r niwed sy'n gysylltiedig â graddfa ac arwyddocâd risgiau diffyg cydymffurfio a/neu berfformiad gwael, yn erbyn y baich a roddir ar ddarparwyr.

**Cefndir**

6. Mae’r Ddeddf yn nodi’r system y byddwn yn ei defnyddio i reoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru. Bydd y system newydd yn seiliedig ar Gofrestr ar gyfer darparwyr addysg uwch, gyda **Fframwaith Rheoleiddio** cysylltiedig sy’n cynnwys Amodau Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus.

7. Bydd rhai elfennau o’r **Fframwaith Rheoleiddio** yn berthnasol i ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill yng Nghymru hefyd trwy Amodau Cyllid, fel a nodir yn y diagram isod a’r tabl ym mharagraff 15. Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd ag Amodau Cyllid, ac mae ganddo bwerau i ymyrryd neu ddwyn materion i sylw Gweinidogion Cymru, sydd hefyd â phwerau i ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach.

***Ffigur 1 – Fframwaith Rheoleiddio (*Amodau Cofrestru / Cyllid, y ceisir barn amdanynt yn yr ymgynghoriad hwn)***

| Amodau Cofrestru | | Amodau Ariannu |
|---|---|---|
| Cychwynnol | Parhaus | Cyllido |
| Cynaliadwyedd Ariannol* | Cynaliadwyedd Ariannol* | Cynaliadwyedd Ariannol* |
| Llywodraethu a Rheoli* | Llywodraethu a Rheoli* | Llywodraethu a Rheoli* |
| Ansawdd* | Ansawdd* | Ansawdd* |
| Lles Staff a Myfyrwyr | Lles Staff a Myfyrwyr | Lles Staff a Myfyrwyr |
| | Rhoi sylw i gyngor neu arweiniad* | Rhoi sylw i gyngor neu arweiniad* |
| | Cynlluniau diogelu dysgwyr | Cynlluniau diogelu dysgwyr |
| | Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr |
| | Cyfle Cyfartal | Cyfle Cyfartal |
| | Proses Gwynion | Proses Gwynion |
| | Y Gymraeg | Y Gymraeg |
| Trefniadau Dilysu | Trefniadau Dilysu | |
| Terfynau Ffioedd (categori craidd AU yn unig)* | Terfynau Ffioedd (categori craidd AU yn unig)* | |
| Statws Elusennol (categori craidd AU yn unig)* | Statws Elusennol (categori craidd AU yn unig)* | |
| Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr* | Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr* | |

| | | |
|---|---|---|
| | Hysbysu o Newidiadau sy'n effeithio ar gywirdeb gwybodaeth* | |
| | Gwybodaeth, cynhorthwy a mynediad | |

- Melyn – Amodau Cofrestru sydd hefyd yn Amodau Cyllid ar gyfer darparwyr anghofrestredig (heb gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion)
- Gwyrdd – Amodau Cofrestru yn unig (h.y. nid amodau cyllid)

8. Mae gan Medr ddyletswyddau mewn perthynas â monitro cydymffurfedd ag Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid, a phwerau i ymyrryd os yw unrhyw amodau'n cael eu torri. Bydd holl gyrsiau addysg uwch darparwyr ar y Gofrestr addysg uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y trefniadau hyn.

9. Mae ein Cynllun Strategol yn mynegi ein gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf trwy nod sefydlu a phum nod strategol rhyng-gysylltiedig. Ein nod sefydlu yw "*Sefydlu Medr fel sefydliad hynod effeithiol a rheoleiddiwr yr ymddiriedir ynddo*". I ategu'r nod hwn, rydym wedi llunio datganiad o'n dull, a nodir yn ein **Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd**, sy'n disgrifio'r egwyddorion arweiniol y byddwn yn eu dilyn wrth gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, gan amcanu at wireddu ein gweledigaeth "…*i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltu'n greiddiol iddi.*"

10. Mae ein dull yn nodi ein bod yn ymrwymedig i reoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn gymesur, yn gyson ac yn seiliedig ar risg, ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd. Mae'r dull hwn yn integreiddio cryfderau rheoleiddio seiliedig-ar-reolau (cydymffurfio) a seiliedig-ar-nodau (gwella'n barhaus), gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfedd darparwyr a llywio gwelliannau. Mae hyn wedi tanategu datblygiad y system reoleiddio newydd.

11. Mae Medr yn datblygu trefniadau monitro mewn perthynas â chydymffurfio â phob amod. Lle mae darparwyr yn torri Amodau Cofrestru neu Amodau Cyllid, bydd gennym bwerau i ymyrryd i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Caiff datganiad o'n swyddogaethau ymyrryd ei nodi yn ein **Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd.**

12. Ar gyfer darparwyr addysg uwch, y Gofrestr darparwyr addysg uwch yng Nghymru ('Y Gofrestr') yw craidd y system reoleiddio newydd. Bydd dau gategori cofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch:

- **Darparwyr Addysg Uwch (Craidd)** – Bydd darparwyr a gofrestrwyd yn y categori hwn yn gymwys i gael dynodi eu cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr ar y lefel ffioedd uwch, a ddarperir gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd darparwyr yn y categori hwn yn gymwys ar gyfer cyllid grant addysg uwch Medr hefyd.
- **Darparwyr Addysg Uwch (Amgen)** – Bydd darparwyr a gofrestrwyd yn y categori hwn yn gymwys i gael dynodi eu cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr ar y lefel ffioedd is, a ddarperir gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Ni fydd darparwyr yn y categori hwn yn gymwys ar gyfer cyllid grant addysg uwch.

13. Ar gyfer darparwyr sy’n ceisio cofrestriad yn y naill gategori neu’r llall, bydd cael eu derbyn ar y Gofrestr yn amodol ar gydymffurfio ag Amodau Cofrestru Cychwynnol. Unwaith y byddant wedi eu cofrestru, bydd angen i ddarparwyr gydymffurfio ag Amodau Cofrestru Parhaus. Yn yr un modd, bydd angen i’r darparwyr hynny sy’n ddarostyngedig i Amodau Cyllid gydymffurfio â’r amodau hynny’n barhaus. Bydd gofynion rhai amodau’n cael eu goleuo gan ddogfennau rheoleiddiol eraill. Mae’r amod mewn perthynas ag Ansawdd yn berthnasol i bob darparwr addysg a hyfforddiant trydyddol, a bydd yn yn cael ei ategu gan y **Fframwaith Ansawdd**.

## Ymgynghoriad

14. Ceir gofyniad statudol i Medr gyhoeddi gwybodaeth am ofynion y system reoleiddio newydd ac ymgynghori ar gryn dipyn ohoni cyn ei chyhoeddi’n derfynol. Mae’r ymgynghoriad hwn a’r ymgynghoriad pellach y bwriedir ei gynnal yn hwyrach yn 2025 yn amcanu at ateb y gofyniad hwn.

- Mae Adran 27 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyhoeddi dogfen sy’n nodi’r gofynion mewn perthynas ag Amodau Cofrestru Cychwynnol ac ymgynghori ar y rhain cyn ei chyhoeddi.
- Mae Adran 28 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyhoeddi dogfen sy’n nodi’r gofynion mewn perthynas ag Amodau Cofrestru Parhaus Cyffredinol ac ymgynghori ar y rhain cyn ei chyhoeddi.
- Mae Adran 50 y Ddeddf yn galluogi Medr i gyhoeddi Fframweithiau Ansawdd yn amodol ar Medr yn ymgynghori cyn gwneud hynny.
- Mae Adran 81 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyhoeddi Datganiad sy’n nodi sut y mae’n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau ymyrryd ac ymgynghori ar hyn cyn ei gyhoeddi.

15. Nid yw pob elfen o’r system newydd a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i bob darparwr addysg drydyddol a hyfforddiant. Caiff yr elfennau sy’n berthnasol i ddarparwyr gwahanol fathau o ddarpariaeth eu nodi yn y tabl isod. Mae rhywfaint o ddarpariaeth y mae darparwyr addysg uwch yn gyfrifol amdani yn cael ei dosbarthu trwy ddarpariaeth freiniol neu wedi’i is-gontractio. Lle bo hyn yn digwydd, dylai darparwyr addysg uwch sicrhau bod partneriaid breiniol neu wedi’i is-gontractio yn cael eu hysbysu am yr ymgynghoriad ac yn cael y cyfle i ymateb, naill ai ar wahân neu o fewn ymateb y partner breinio. Sylwer nad yw dynodi cyrsiau’n benodol o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

### *Ffigur 2 – Trosolwg o sut y mae agweddau ar yr ymgynghoriad yn berthnasol i'r sector addysg drydyddol*

| | Atodiad A | Fframwaith Rheoleiddio – Atodiad B | | | Atodiac C |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth | Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd | Amodau Cofrestru | Amodau Cyllid[1] | Monitro a Digwyddiadau Adroddadwy | Fframwaith Ansawdd |
| Addysg uwch (gan gynnwys breiniol / a isgontractiwyd) | ✓ | ✓ | ✗ [2] | ✓ | ✓ |
| Cyrsiau addysg uwch a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg bellach | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Prentisiaethau | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Dysgu oedolion yn y gymuned | ✓ | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Chweched dosbarth mewn ysgolion[3] | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ |
| Trydyddol Arall[4] | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✓ |

[1] Mae'n bosib bydd telerau ac amodau am grantiau addysg uwch penodol sy'n tu hwnt i'r amodau cyllido.
[2] Ar gyfer darparwyr breiniol, mae'r amodau cyllid canlynol yn berthnasol dan adran 90(4) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022: Cynlluniau Diogelu Dysgwyr; Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr; a Sylw i Gyngor a Chanllawiau.
[3] Nid yw unedau chweched dosbarth mewn ysgolion wedi eu cynnwys o fewn amodau cofrestru nac amodau cyllid Medr am eu bod yn rhan o'r fframwaith cyllid a rheoleiddio presennol sy'n berthnasol i ysgolion a'r awdurdodau lleol sy'n eu cynnal.
[4] Mae hyn yn cwmpasu unrhyw ddarpariaeth addysg drydyddol neu hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru gan ddarparwr nad yw'n cael ei reoleiddio na'i gyllido gan Medr

## Atodiad A – Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd

**Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:**

- **yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.**

16. Ein bwriad yw bod yn rheoleiddiwr cymesur a seiliedig ar risg i gyflawni'r nodau yn ein Cynllun Strategol. Mewn perthynas â'n **Dull Rheoleiddio** arfaethedig:
I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio'n ategu ein gallu i gyrraedd nodau ein Cynllun Strategol?

    *Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

    I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio'n ategu ein bwriad i fod yn rheoleiddiwr cymesur a seiliedig-ar-risg?

    *Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

    I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r athroniaeth, yr egwyddorion a'r disgwyliadau a nodir yn ein Dull Rheoleiddio?

    *Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

    A allai'r Dull Rheoleiddio, fel y'i nodir, gael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl ddarparwyr trydyddol?

    *Gallai / Yn rhannol / Na allai*

    Os mai na allai neu yn rhannol oedd eich ateb, rhowch fanylion sut y gallai gael ei gymhwyso'n gyson.

    A yw'r Dull Rheoleiddio'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol drwy'r gwahanol Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?

    *Ydy / Yn rhannol / Nac ydy*

    Os mai nac ydy neu yn rhannol oedd eich ateb, rhowch fanylion sut y gallai gael ei adlewyrchu'n ddigonol.

    Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill sy'n ymwneud â'n dull rheoleiddio, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda.

17. Mae ein **Pwerau Ymyrryd** arfaethedig yn berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru gan eu bod yn nodi'r ystod o bwerau ymyrryd a sut y gallai'r rhain gael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio ag Amodau Cofrestru ac Amodau Cyllid. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r ymyriadau hynny a nodir dan Y Ddeddf ac ymyriadau amhenodedig posibl eraill a danategir gan swyddogaethau statudol Medr. Mae'r ddogfen hefyd yn berthnasol i ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru nad ydynt yn cael eu rheoleiddio na'u cyllido gan Medr, gan ei bod yn amlinellu rhai pwerau ymyrryd cyfyngedig mewn perthynas ag ansawdd.

    I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr ymyriadau'n cyd-fynd â bwriadau'r Ddeddf?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Datganiad o Ymyriadau'n cyd-fynd â'n Dull Rheoleiddio?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf*

A fyddai canllawiau atodol ar gyfer y Datganiad o gymorth?

*Byddent / Na fyddent*

Nodwch y meysydd lle byddai canllawiau atodol o gymorth os gwelwch yn dda.

## Atodiad B – Fframwaith Rheoleiddio

**Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:**

- **Addysg uwch (gan gynnwys breiniol / a isgontractiwyd)**
- **Cyrsiau addysg uwch a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau**
- **Addysg bellach**
- **Prentisiaethau**
- **Dysgu oedolion yn y gymuned**

18. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn â rhai o'r Amodau Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus, yn ogystal â gofynion a threfniadau monitro cysylltiedig. Ceir agweddau cyffredin rhwng rhai o'r Amodau Cofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch a'r Amodau Cyllid ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill. Caiff yr Amodau Cofrestru / Cyllid drafft, y ceisir barn ynglŷn â nhw yn yr ymgynghoriad hwn, eu dynodi â seren yn Ffigur 1. Mae'r amodau sy'n weddill wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddwn yn ymgynghori arnynt yn hwyrach eleni.

19. Rydym wedi gosod gofynion pob un o'r Amodau Cofrestru / Cyllid ar lefel uchel. Mae hyn yn ein galluogi i gymhwyso'r amodau i'r amrywiaeth lawn o ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant a fydd yn cael eu rheoleiddio gan Medr. Yn unol â'n Dull Rheoleiddio, rydym wedi ceisio lleihau i'r eithaf y baich gweinyddol ar ddarparwyr, lle bynnag y bo'n briodol, gan roi pwyslais ar drefn lle mae darparwyr yn cael eu sicrwydd eu hunain ynghylch cydymffurfio ag amodau ac yn adrodd yn rhagweithiol am faterion wrth Medr. Ar gyfer ein **Fframwaith Rheoleiddio** arfaethedig **rydym yn ceisio barn ar y canlynol**:

### *Trefniadau Monitro*

20. Mae ein Dull Rheoleiddio wedi dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn bwriadu monitro cydymffurfiaeth â'r Amodau Cofrestru / Cyllid, a eglurir yn ein trefniadau monitro arfaethedig. Darperir rhagor o fanylion am fonitro dan bob amod. Bydd rhagor o wybodaeth am fonitro'n cael ei darparu fel rhan o'r ymgynghoriad yn hwyrach yn 2025.

    Yn y Datganiad, rydym wedi darparu dau fodel posibl ar gyfer ein dull o ymgysylltu â'r darparwyr hynny yr ydym yn eu monitro – oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â hyn?

    Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch y dull arfaethedig o fonitro cydymffurfedd ag Amodau Cofrestru / Cyllid?

### *Cynaliadwyedd Ariannol*

21. Mae datblygu'r Amod Cofrestru / Cyllid arfaethedig hwn wedi tynnu ar drefniadau rheoleiddio a sicrwydd ariannol presennol mewn perthynas â darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, gan ystyried yr amgylchedd presennol a'r amgylchedd posibl yn y dyfodol ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r gofynion ar gyfer yr amod hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd rôl Medr o ran monitro cynaliadwyedd ariannol yr holl ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr a gyllidir fel Amod Cyllid.

A allai'r amod mewn perthynas â Chynaliadwyedd Ariannol gael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl ddarparwyr trydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)*

22. Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig mewn perthynas â Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) yn nodi ein disgwyliadau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a rheoli darparwyr, gan gynnwys sut y maent yn rheoli eu materion ariannol. Er mwyn lleihau'r baich hwn i'r eithaf, mae'r amod yn gosod rhywfaint o ddibyniaeth ar drefn lle mae darparwyr yn cael eu sicrwydd eu hunain ynghylch cydymffurfio â'u dogfennau llywodraethu a chodau llywodraethu perthnasol, gyda darparwyr yn gorfod mynd ati bob hyn a hyn i geisio sicrwydd allanol ynghylch effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu. Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr a gyllidir fel Amod Cyllid.

A allai'r amod mewn perthynas â Llywodraethu a Rheoli gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Ansawdd*

23. Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig mewn perthynas ag Ansawdd yn tynnu ar y Fframwaith Ansawdd drafft ac yn cynnwys chydymffurfiaeth sylfaenol a gwelliant parhaus. Mae'r amod hwn yn berthnasol i bob darparwr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr a gyllidir fel Amod Cyllid.
A allai'r amod mewn perthynas ag Ansawdd gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Sylw i Gyngor a Chanllawiau*

24. Mae ein Hamod Cofrestru / Cyllid arfaethedig mewn perthynas â sylw i gyngor a chanllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr roi sylw dyladwy i unrhyw gyngor neu ganllawiau a ddyroddir gan Medr. Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus. Mae hefyd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr a gyllidir fel Amod Cyllid.

A allai'r amod mewn perthynas â Sylw i Gyngor a Chanllawiau gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr*

25. Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr gydymffurfio â chyfraith defnyddwyr gan gynnwys unrhyw ganllawiau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'r amod hwn yn berthnasol i'r holl ddarparwyr cofrestredig yn y ddau gategori fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus.

A allai'r amod mewn perthynas â Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Terfynau ffioedd*

26. Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Therfynau Ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig yn y ddau gategori fod â datganiad terfyn ffioedd a gymeradwywyd gan Medr a sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd perthnasol. Mae'r amod hwn yn berthnasol fel Amod Cofrestru Parhaus.
A allai'r amod mewn perthynas â Therfynau ffioedd gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth*

27. Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth wedi'i fwriadu i ateb o gofyniad am Amodau Cofrestru parhaus gorfodol sy'n ymwneud â chywirdeb gwybodaeth a gynhwysir yng nghofnod darparwr yn y Gofrestr, ac hefyd hysbysu am newidiadau i statws trydyddol darparwr yng Nghymru. Mae'r amod yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr addysg uwch cofrestredig yn y ddau gategori cofrestru ein hysbysu am unrhyw newid sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y Gofrestr neu sy'n effeithio ar statws darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r amod hwn yn berthnasol fel Amod Cofrestru Parhaus.

A allai'r amod mewn perthynas â Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Statws Elusennol*

28. Mae ein Hamod Cofrestru arfaethedig mewn perthynas â Statws Elusennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr addysg uwch cofrestredig yn y Categori Craidd Addysg Uwch fod yn elusennau. Mae'r amod hwn yn berthnasol fel Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus.

A allai'r amod mewn perthynas â Statws Elusennol gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

### *Y Broses Digwyddiadau Adroddadwy*

29. Mae ein Proses Digwyddiadau Adroddadwy arfaethedig yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer y digwyddiadau hynny y mae angen adrodd amdanynt wrth Medr a sut y dylem gael ein hysbysu am y rhain. Mae'r broses yn berthnasol i'r holl ddarparwyr Cofrestredig ac a Gyllidir ac yn cwmpasu adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol a digwyddiadau Hysbysadwy eraill. Mae'r broses yn llifo o'n Dull Rheoleiddio, sy'n rhoi pwyslais ar hunanadrodd rhagweithiol gan ddarparwyr. Mae'n ffurfio elfen allweddol o'n dull o fonitro cydymffurfiaeth.

A allai'r amod mewn perthynas â'r Broses Digwyddiadau Adroddadwy gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr addysg drydyddol?

A yw gofynion yr amod yn gymesur?

A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?

Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ynghylch yr Amodau Cofrestru? Dynodwch at ba Amodau yr ydych yn cyfeirio yn eich ymateb.

## Atodiad C – Fframwaith Ansawdd

**Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:**

- **yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.**

30. Bydd ein **Fframwaith Ansawdd** arfaethedig yn cynorthwyo darparwyr a Medr i sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn sector sy'n ymegnïo i wella'n barhaus. Mae'n adlewyrchu darpariaethau yn y Ddeddf ac yn ystyried dyletswyddau ehangach Medr a datganiad o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd yn berthnasol i holl ddarpariaeth darparwyr addysg drydyddol cofrestredig ac a gyllidir, gan gynnwys darpariaeth a ddarperir ar eu rhan trwy drefniadau breinio neu is-gontractio.

31. Mae'r Fframwaith Ansawdd wedi'i fwriadu i ddynodi dull newydd ar gyfer ansawdd a gwella'n barhaus mewn addysg drydyddol. Bydd ymgynghoriad pellach yn yr hydref 2025, a fydd yn cynnwys canllawiau ynghylch y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'r Cynllun Diogelu Dysgwyr, gan gynnwys y dulliau y bydd Medr yn eu defnyddio i ddeall perfformiad darparwyr unigol a'r sector trydyddol cyfan mewn perthynas â'r Fframwaith Ansawdd. Bydd hyn yn gyfle i roi adborth ychwanegol ar y Fframwaith wrth i ni ddatblygu'r prosesau monitro ac ymyrryd.

32. Mae'r Fframwaith yn amcanu at hybu cydlyniad â rhannau eraill o'r system addysg yng Nghymru a ledled y DU. Bydd Medr yn amcanu at sicrhau cydlyniad rhwng y trefniadau hyn a threfniadau ansawdd ar gyfer addysg orfodol, yn enwedig lle mae darparwyr unigol, megis chweched dosbarth mewn ysgolion, yn darparu addysg orfodol ac addysg drydyddol.

33. Mae Medr yn cydnabod bod tirwedd addysg drydyddol yn gymhleth ac yn ddeinamig, felly mae'r Fframwaith hefyd yn anelu at gydnabod y gwahaniaethau ym mhob rhan o'r sector, ac i fod yn addasadwy i ystyried hyn o fewn dull ehangach. Bydd angen i ddarparwyr ystyried sut y gallant gyd-fynd â'r Fframwaith yng nghyd-destun eu cenhadaeth a'u darpariaeth hwy eu hunain.

34. Mae'r Fframwaith yn cydnabod bod darparwyr yn ddarostyngedig i ofynion eraill gan ddibynnu ar y rhan o'r sector y maent yn gweithredu ynddi, a bod angen iddo leihau'r baich i'r eithaf o ran galluogi darparwyr i gydymffurfio â'r rhain. Bydd Medr yn ystyried y gofynion amrywiol hyn (yn rhai statudol ac anstatudol) fel y bo'n briodol yn ei gyngor a'i ganllawiau.

35. Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau ansawdd y dysgu a'r addysgu a hybu gwelliant parhaus (y term a ddefnyddiwn i gwmpasu gweithgarwch gwella a helaethu). Mae'n cydnabod mai'r darparwr unigol sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau ei ansawdd ei hun a datblygu ei strategaeth ei hun ar gyfer gwella, ac mae'n adlewyrchu ymddiriedaeth yn arbenigedd a chrebwyll y gweithlu addysg drydyddol. Mae'r Fframwaith yn galluogi darparwyr i ddefnyddio dulliau arloesol a newid eu dulliau darparu i gyflawni deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr a diwallu anghenion cyflogwyr yn well. Yn olaf, mae'n amcanu at daro cydbwysedd rhwng yr angen am atebolrwydd a thryloywder ar draws pob rhan o addysg drydyddol ar y naill law a symleiddio gofynion adrodd ar y llaw arall.

36. Mae'r Fframwaith yn cydnabod y cyd-destun cyfredol ar gyfer asesu ansawdd, ar draws y DU a thu hwnt, ac yn amcanu at ychwanegu gwerth o ran cynnal ansawdd a

llywio gwelliant parhaus. Rydym yn awyddus i ddeall unrhyw fylchau a / neu orgyffwrdd y gallwch eu hadnabod, i'n helpu i ystyried sut y gallwn leihau'r baich a chyfuno lle y bo'n bosibl. Rydym wedi cydnabod yn ein diffiniad o gwmpas y bydd angen i'n dull esblygu wrth i ni ddatblygu ein dealltwriaeth mewn perthynas â rhai elfennau. Gallai hyn gynnwys trwy waith cydweithredol gyda darparwyr ac asiantaethau eraill, a chyngor a chanllawiau pellach.

37. Maes o law bydd angen i ni benderfynu a ddylem fynd ati'n ffurfiol ai peidio i ddynodi corff ansawdd i asesu addysg uwch. Bydd gwaith ar hyn yn cael ei wneud i oleuo'r cylch nesaf o asesiadau ansawdd allanol. Byddwn hefyd yn ystyried a ddylid mabwysiadu hyd cylch cyffredin ar gyfer asesu'r holl addysg drydyddol ai peidio.

38. Bydd Medr yn cael ei ddwyn i gyfrif ar lefel y sector, ac felly bydd angen i ni ddiffinio llwyddiant yng nghyd-destun y sector trydyddol yn ei gyfanrwydd. Bydd y Fframwaith Ansawdd yn ein helpu i wneud hyn, gan gynnwys trwy bennu blaenoriaethau. Fodd bynnag, effeithir ar ddeilliannau ar lefel y sector gan berfformiad ar lefel darparwyr. Rydym felly'n disgwyl y bydd angen i ni ymgysylltu ar lefel y sector ac ar lefel darparwyr i bennu disgwyliadau, gan ymyrryd ar lefel darparwyr lle y bo'n briodol.

*Adran A: Cyflwyniad, cefndir a chwmpas*

I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y drafft yn nodi'r sail statudol ar gyfer y Fframwaith a'r hyn y mae wedi ei fwriadu i'w gyflawni?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

A yw cwmpas y diffiniad o ansawdd yn briodol?

*Ydy / Nac ydy*

Os nad ydyw, pa eglurhad pellach y mae ei angen?

*Adran B: Egwyddorion*

I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig yn briodol?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

*Adran C: Meini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg*

Pa nodweddion arfaethedig ar y fframwaith ansawdd fyddai'n cael yr effaith fwyaf / yn ychwanegu'r mwyaf o werth o ran cynnal a gwella ansawdd dros amser?

Adran D: *Rolau a chyfrifoldebau Medr a darparwyr lle mae ansawdd addysg drydyddol yn y cwestiwn*

I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau ar draws pob conglfaen?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

Pa ddull o asesu ansawdd yn allanol sy'n ychwanegu'r mwyaf o werth o ran cynnal ansawdd a llywio gwelliant?

### *Adran E: Prosesau ar gyfer asesu ansawdd addysg*

Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o setiau data i ategu asesiadau o gydymffurfio â'r Fframwaith ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

A oes unrhyw flaenoriaethau eraill i'w hystyried mewn perthynas ag asesu ansawdd yn allanol?

*Oes / Nac oes*

Os oes, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda

Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o setiau data i ategu asesiadau o ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?

*Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf*

A oes unrhyw ddata arall y dylid ei ystyried?

*Oes / Nac oes*

Os oes, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda

### *Adran F: Ymyrryd*

A yw'r adran yn darparu eglurder ynghylch sut y bydd Medr yn ymyrryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, safonau a gwella'n barhaus?

*Ydy / Nac ydy*

Os nad ydyw, pa eglurhad pellach y mae ei angen?

### *Myfyrdodau terfynol*

A oes unrhyw fylchau o fewn y Fframwaith y dylid mynd i'r afael â hwy?

*Oes / Nac oes*

Os oes, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda

A oes unrhyw elfennau penodol o fewn y drafft cyfredol y dylid eu pwysleisio neu eu cryfhau?

*Oes / Nac oes*

Os oes, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda

Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ynghylch y Fframwaith Ansawdd, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda:

*Atodiad 1: Canllawiau ychwanegol i ddarparwyr trydyddol*

A yw'r Atodiad hwn yn ystyried y dogfennau a'r gofynion eraill allweddol ar gyfer pob rhan o'r sector?

*Ydy / Nac ydy*

Os nad ydyw, pa wybodaeth arall sy'n ofynnol?

**Y Gymraeg**

39. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn ag effaith yr holl elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar y Gymraeg.

A ellid newid y cynigion i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu i leihau effeithiau andwyol ar y canlynol:

Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

*Gellid / Na ellid*

Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.

Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

*Gellid / Na ellid*

Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.

**Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

40. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn ag effaith yr holl elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

*Byddant / Yn rhannol / Na fyddant*

Darparwch fanylion os gwelwch yn dda

**Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

41. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn pobl ynglŷn ag effaith yr holl elfennau uchod o'r system reoleiddio arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

  *Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt*

- hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu;

  *Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol.*

- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu:

  *Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol.*

- lleihau'r anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?

  *Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol. Darparwch fanylion os gwelwch yn dda.*

Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu rhannu ynghylch effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, nodwch hwy yma os gwelwch yn dda:

**Asesu'r Effeithiau**

42. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effeithiau er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym yn rhagweld effaith gadarnhaol ar hil, rhyw, anabledd, oedran, crefydd a chred. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith yr awgrymiadau hyn ar y Gymraeg, darpariaeth yn y Gymraeg o fewn y sector addysg drydyddol yng Nghymru, nodweddion economaidd-gymdeithasol ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

43. Mae'r Fframwaith Ansawdd wedi'i fwriadu i sicrhau bod Medr yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau ansawdd addysg drydyddol, sy'n cynnwys sicrhau cyfleoedd o ansawdd da i ddysgwyr. Mae'n cwmpasu, yn fras, bob agwedd ar brofiad dysgwr ac, yn dilyn ein hasesiad cychwynnol o'r effeithiau, mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol-niwtral ar ddysgwyr yn dilyn ei roi ar waith.

44. Mae'r Fframwaith yn cynnwys ffocws cryf ar ddadansoddi data, gan gynnwys nodweddion personol dysgwyr lle y bo hyn ar gael, a fydd yn galluogi Medr i adnabod tueddiadau a materion a allai effeithio ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig. Ceir ffocws ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda pholisi Medr yn cefnogi ymdrechion i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis

gwneud hynny. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio hefyd ar ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg drydyddol sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government